Adroddiad y Gynhadledd Genedlaethol

"Effeithlonrwydd Ysgolion - Cydweithredu a Phartneriaethau"
"School Effectiveness - Collaboration and Partnerships"

Cynhaliwyd Cynhadledd Genedlaethol Llywodraethwyr Cymru ddydd Sadwrn 10eg Gorffennaf 2010 yn Neuadd Sir Powys, Llandrindod. Thema'r gynhadledd oedd "**Effeithlonrwydd Ysgolion - Cydweithredu a Phartneriaethau**".

Agorwyd y gynhadledd gan Carol Sayce, Cadeirydd Llywodraethwyr Cymru. Traddododd y brif araith gan Ann Keane, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, ar rôl llywodraethwyr mewn arolygiadau a'r fframwaith arolygu newydd sy'n dechrau ym mis Medi. Rhoddodd Mr Karl Napieralla, Cyfarwyddwr Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes Cyngor Castell-nedd Port Talbot, gyflwyniad ar y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion yn y prynhawn. Yn ogystal cynhaliwyd sesiynau gweithdy ar Gyfranogiad Disgyblion, Rôl Llywodraethwyr yn y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion a Ffederasiwn a Chydweithredu

"RÔL LLYWODRAETHWYR MEWN AROLYGIADAU A'R CYLCH NESAF O AROLYGIADAU"

Agorodd Ann Keane drwy ddiolch i Lywodraethwyr Cymru am ei gwahodd i siarad a dywedodd fod Estyn bob amser wedi mwynhau cydberthynas waith dda gyda Llywodraethwyr Cymru. Canolbwyntiodd y cyflwyniad ar y fframwaith arolygu newydd a sut y gall llywodraethwyr helpu ysgolion yn ystod y broses arolygu.

Mae Estyn wedi gweld bod llywodraethwyr am fod yn effeithiol yn eu rôl a bod eu presenoldeb yn y gynhadledd heddiw yn tystio i hynny.

Cyfeiriwyd at dystiolaeth yn Adroddiad Blynyddol Estyn ar gyfer 2008-2009, yn ymwneud â pha mor dda yr oedd cyrff llywodraethu yn cyflawni eu cyfrifoldebau yn y sector cynradd a'r sector uwchradd, a hefyd rhai meysydd lle nad oedd rhai cyrff llywodraethu yn gwneud yn dda. Nodwyd bod cyrff llywodraethu mewn tri chwarter o ysgolion uwchradd ac 80% o ysgolion cynradd yn gwneud gwaith da. Roedd 1 o bob 10 o gyrff llywodraethu mewn ysgolion cynradd yn darparu cefnogaeth ragorol i'r arweinyddiaeth yn ogystal â lefel dda o her.

Prif ddiffygion cyrff llywodraethu mewn ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd oedd monitro ansawdd y ddarpariaeth, diffyg meincnodi yn erbyn ysgolion eraill, methu â herio'r lefel ddisgwyliedig a methu â chyflawni'r holl ofynion mewn perthynas ag Addysg Grefyddol.

Nododd Ms Keane y bydd yr Adroddiad Blynyddol nesaf yn canolbwyntio ar y cylch 6 blynedd diwethaf o arolygiadau.

Yna canolbwyntiodd y cyflwyniad ar y newidiadau allweddol i'r fframwaith arolygu newydd:

- arolygiadau craidd byrrach (gyda gwaith dilynol amrywiol)
- ehangu arolygiadau a arweinir gan Estyn ac arolygwyr cymheiriaid
- pwyslais ar feithrin gallu ar gyfer hunanwerthuso

- canolbwyntio ar foddhad cwsmeriaid
- adroddiadau cliriach a mwy hygyrch
- fframwaith a system ddyfarnu symlach (ardderchog, da, digonol, anfoddhaol)
- cyfnod byrrach o rybudd ymlaen llaw.

Roedd yr arolygiad newydd yn cynnwys 3 chwestiwn allweddol yn hytrach na 7:
- Pa mor dda yw'r canlyniadau?
- Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?
- Pa mor dda yw'r gwaith arwain a rheoli?

Byddai Cwestiwn Allweddol 3 yn gysylltiedig â gwaith y corff llywodraethu a byddai dyfarniadau ar waith llywodraethwyr yn canolbwyntio ar ba mor dda y mae llywodraethwyr yn gwneud y canlynol:
- deall eu rolau
- eu gwybodaeth am berfformiad ysgolion
- darparu ymdeimlad o gyfeiriad
- darparu cymorth fel cyfaill beirniadol
- dal ysgolion i gyfrif am safonau ac ansawdd
- rhoi gwybod am gwynion ac ymdrin â hwy

I gloi, cafwyd crynodeb o'r cwestiynau y dylai llywodraethwyr eu gofyn:
- Beth yw cyfradd y cynnydd?
- Sut y mae ein hysgol ni yn cymharu?
- Beth y mae angen ei wella?
- Beth sy'n rhaid i'r ysgol ei wneud i wella?

"Y FFRAMWAITH EFFEITHIOLRWYDD YSGOLION"

Agorodd Karl Napieralla drwy ddangos fideo a gynhyrchwyd gan fyfyrwyr Ysgol Gyfun Birchgrove, Abertawe am eu haddysgu hwy i gydweithio i ddatrys problemau. Enw'r fideo oedd "Mae'r Dyfodol yn ein Dwylo" ac roedd yn seiliedig ar achub y blaned.

Yna siaradodd am sut y gall llywodraethwyr sicrhau bod disgyblion yn cael addysg ar lythrennedd, rhifedd a datrys problemau. Nododd Karl nad oedd ysgolion ac Awdurdodau Lleol yn endidau ar wahân bellach, a bod angen iddynt gydweithredu i ddarparu gwasanaethau cymorth.

Cyfeiriwyd at ddiagram y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion a bod angen i lywodraethwyr ystyried sut roedd eu rôl yn cydweddu â phob rhan. Blaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cynulliad Cymru oedd llythrennedd, rhifedd ac effaith tlodi ar lefelau cyrhaeddiad addysgol. Hysbyswyd cynadleddwyr y byddai'r Strategaeth Tlodi Plant yn elfen allweddol ar gyfer ysgolion.

Aeth ymlaen i esbonio bod gan Gymru batrwm addysg unigryw iawn, sef bod y mwyafrif helaeth o blant yn cael addysg o fewn eu cymunedau lleol. Eglurodd hefyd fod athrawon wrth wraidd unrhyw ddiwygiadau addysgol ac y dylai llywodraethwyr rannu eu harweinwyr gydag ysgolion eraill i rannu arfer da.

Pwysleisiodd Mr Napieralla bwysigrwydd sicrhau bod y corff llywodraethu yn cymryd rhan yn hunanwerthusiad yr ysgol.

Roedd angen i lywodraethwyr gynnal trafodaethau o fewn eu cyrff llywodraethu a'u cymdeithasau llywodraethwyr eu hunain, gan ofyn cwestiynau, megis:

- Beth yw ein strategaeth gyffredinol ar gyfer gwella/effeithlonrwydd ysgolion?
- Pa mor effeithiol fu hynny?
- Pa adnoddau sydd gennym neu sydd ar gael i ni - Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion, Consortia Rhanbarthol, Ysgolion, darparwyr eraill?
- Beth sydd wedi gweithio, neu heb weithio, o'r blaen?
- Pa ddulliau newydd y mae angen i ni eu hystyried?
- Pa adnoddau sydd eu hangen arnom ar gyfer y rhain - Awdurdod Lleol, ysgolion a phartneriaid eraill?

GWEITHDAI

Rhoddwyd cyfle i'r holl gynadleddwyr fynd i ddau sesiwn gweithdy o blith y tri canlynol:-

Cyfranogiad Disgyblion
Jane Harries, Llywodraeth Cynulliad Cymru

Y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion - Rôl Llywodraethwyr
David Hopkins, Cynghorydd Proffesiynol i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion

Ffederasiwn a Chydweithredu
Dr David Lloyd-Thomas, Is-adran Rheolaeth ac Effeithiolrwydd Ysgolion, Llywodraeth Cynulliad Cymru

Nodir rhai o'r pwyntiau a godwyd gan gynadleddwyr yn ystod y gweithdai isod:

Cyfranogiad Disgyblion

- Mae cyfranogiad gan ddisgyblion ym mywyd yr ysgol yn datblygu hyder dysgwyr.
- Dylid mabwysiadu dull ysgol-gyfan o weithredu, gan gynnwys pob plentyn.
- Mae llais y disgybl bellach yn rhan annatod o'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion.
- Argymhellir y dylai cyrff llywodraethu gynnwys eitem ar agenda eu cyfarfodydd ar gyfer adborth gan Gynghorau Ysgol, a hefyd adborth i Gynghorau Ysgol. Dylai fod cyswllt rheolaidd â chynghorau ysgol.

Y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion - Rôl Llywodraethwyr

- Mae'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion yn ymwneud â Diben Cenedlaethol
- Mae angen egluro rôl llywodraethwyr
- Mae llywodraethwyr hefyd yn arweinwyr system a dylid eu hyfforddi i hyfforddi eraill
- Pryderon y gallai'r agenda drawsnewid gael ei hoedi oherwydd cyfyngiadau ariannol posibl

Ffederasiwn a Chydweithredu

- Mae angen i lywodraethwyr edrych tuag allan, yn hytrach nag edrych yn fewnol ar eu hysgol eu hunain
- Ceir anawsterau ond gellir eu goresgyn
- Cafwyd profiadau cadarnhaol o ffederasiwn mewn mannau eraill
- Mae cynlluniau peilot yn cael eu sefydlu

Mae copïau o'r deunyddiau a ddefnyddiwyd yn ystod y cyflwyniadau a'r gweithdai ar gael i'w llwytho i lawr o wefan Llywodraethwyr Cymru
http://www.governorswales.org.uk/cyhoeddiadau/adroddiadau-cynhadleddau/

GWERTHUSO
Nodir crynodeb o'r sylwadau a gafwyd ar y ffurflenni gwerthuso isod:

Trefniadaeth y diwrnod:
- Un o'r cynadleddau gorau i mi fynd iddi.
- Trefniadaeth effeithiol iawn.
- Pecyn a gwybodaeth y gynhadledd yn ardderchog. Staff croesawgar bob amser yn barod i helpu.
- Trefniadaeth ardderchog ar y diwrnod.
- Croesawgar ac roedd gwybodaeth ar gael yn y fan a'r lle.

Siaradwyr:
- Ardderchog.
- Siaradwyr da iawn gyda llawer o bethau i'w hystyried.
- Gwybodus iawn gyda sgiliau cyflwyno ardderchog.
- Estyn yn llawn gwybodaeth ac wedi'i hanelu at lywodraethwyr. Y cyd-destun ar gyfer ysgolion a llywodraethwyr yn procio'r meddwl ac yn amlygu'r angen i herio.
- Dewis diddorol o siaradwyr yn y cyfarfod llawn a'r gweithdai.
- Yn benodol/defnyddiol ac yn heriol.
- Y gweithdy gorau i mi gymryd rhan ynddo.
- Cyfle da i ofyn cwestiynau/trafod.
- O ansawdd uchel - rhyngweithiol iawn, ac felly'n llawer mwy diddorol.
- Amser i drafod a darganfod ein bod yn rhannu'r un pryderon
- Ardderchog - eglurhad clir a gonest o'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion a'i flaenoriaethau.
- Roedd y gweithdy ar Ffederasiwn a Chydweithredu yn agoriad llygad i mi o ran sut y gallwn ffederaleiddio.

Sut y bydd y gynhadledd yn effeithio eich rôl fel llywodraethwr?
- Gwneud mwy o ymdrech i edrych y tu hwnt i bedair wal yr ysgol ei hun.
- Llywodraethwr profiadol, ond gwnaeth yr hyn a ddywedwyd i mi feddwl beth i'w wneud yn y dyfodol.
- Trafodaethau sy'n procio'r meddwl y byddaf yn eu rhaeadru i aelodau fy nghorff llywodraethu.
- Wedi fy ysbrydoli i fynd yn ôl gan obeithio hyrwyddo rhai syniadau.
- Rwy'n teimlo fy mod yn fwy hyddysg a rhaid i mi ddod o hyd i ffyrdd o gael llywodraethwyr i gymryd rhan mewn hyfforddiant a hunanwerthuso.
- Helpu i hysbysu llywodraethwyr yn y gobaith o gael effaith gadarnhaol ar ysgolion/disgyblion o ran eu dealltwriaeth.
- Mae cyd-destun y gynhadledd wedi codi nifer o faterion i'r corff llywodraethu eu trafod a gweithredu arnynt.
- Syniadau i hyrwyddo cyfranogiad disgyblion.

Unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud:
- Ymdriniwyd â rhai pynciau sy'n procio'r meddwl.
- Yn cyrraedd y safon uchel arferol.
- Gwerthfawr a diddorol iawn.
- Da iawn i bawb am eich gwaith caled wrth drefnu cynhadledd llawn gwybodaeth.
- Yn hoffi'r ffaith bod yr arddangoswyr yn bresennol.
- Roedd y cyfleoedd rhwydweithio yn ddefnyddiol.